



## Swyddog Cenedlaethol Cymru - Cais am Swydd

### Am yr FDA

Am ganrif mae'r FDA wedi bod yn undeb llafur cryf a phragmatig sy'n cynrychioli arweinwyr a gweithwyr proffesiynol y sector cyhoeddus sy'n gweithio yn y gwasanaeth sifil a seneddau ledled y DU. Nid yw'r FDA yn blaid-wleidyddol, ac mae'n ceisio gwella bywydau gwaith aelodau a'r gwasanaethau cyhoeddus y maent yn eu darparu trwy drafod ac ymgyrchu. Daw aelodau FDA o amrywiaeth o wahanol broffesiynau gan gynnwys cynghorwyr polisi yn Whitehall a'r cenhedloedd datganoledig, erlynwyr, economegwyr, diplomyddion, cyfreithwyr a gweithwyr treth proffesiynol.

Mae'r FDA yn sefydliad cyffrous, bywiog sy'n tyfu gyda llawer o wahanol gyfleoedd i wella bywydau gwaith aelodau'r FDA. Yn ddiweddar, bu'r FDA yn ymwneud ag amddiffyn gweision sifil yn erbyn ymosodiadau ar eu didueddrwydd; cynrychioli aelodau yn Nhŷ'r Cyffredin i gyflawni polisi newydd i ddelio â bwlio ac aflonyddu gan ASau ac ymgyrchu dros well cyflog yn y gwasanaeth sifil.

Mae gan yr FDA aelodaeth o fewn cyflogwyr y gwasanaeth sifil gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Estyn, amgueddfeydd a llyfrgelloedd Cymru, ynghyd â rhai cyflogwyr llywodraeth y DU, megis SYG ac ACAS. Yn ogystal â bod yn wyneb cyhoeddus yr undeb yng Nghymru, mae'r rôl yn gofyn ichi gynrychioli FDA yng Nghyngor Cyffredinol TUC Cymru.

### **Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano**

Mae'r FDA yn ymfalchïo mewn darparu rhagoriaeth mewn cynrychiolaeth aelodau unigol; llais pragmatig mewn trafodaethau canolog a lleol; llais cryf yn amddiffyn didueddrwydd, uniondeb a phroffesiynoldeb gweision sifil a darparu datblygiad gyrfa a chefnogaeth i aelodau.

Mae'r deiliad swydd presennol wedi bod yn gweithio o gartref ac mae bellach yn ymddeol, felly bydd yr FDA yn agor swyddfa bwrrpasol i Gymru am y tro cyntaf. Daw hyn yn dilyn agor swyddfa yn yr Alban yn 2015 fel rhan o strategaeth dwf ar gyfer

yr Alban. Felly, ni fydd y deiliad swydd llwyddiannus wedi'i leoli yn Llundain ac yn aml bydd yn gweithio ar ei ben ei hun felly bydd angen iddo fod â chymhelliant uchel ac yn hunandaniol.

Bydd gennych faes cytbwys sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr/meysydd arbenigol yng Nghymru ac Adrannau'r DU. Mae gan y swyddog cenedlaethol cryn dipyn o ymreolaeth yn eu meysydd ond mae'n gyfrifol am gynrychioli, trafod a threfnu. Mae agor swyddfa bwrpasol yng Nghymru yn rhan o strategaeth drefnu ehangach. Elfen allweddol o'r rôl fydd adeiladu cryfder a phroffil yr undeb yng Nghymru.

Mae'r swyddog cenedlaethol a thimau FDA yn cynnig amgylchedd gwaith positif trwy weithio gyda'i gilydd i gefnogi ei gilydd. Disgwylir i chi deithio i Lundain yn rheolaidd a bydd angen i chi fod yn hyblyg wrth fynd ati yn eich gwaith. Ysgrifennydd Cyffredinol Cynorthwyol (sydd wedi'i leoli yn Llundain) yw rheolwr uniongyrchol y swydd.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein gwaith a'n gweithgareddau cyfredol ar wefan yr FDA yn [www.fda.org.uk](http://www.fda.org.uk); ar ein ffrwd Twitter [@FDA\\_Union](https://twitter.com/FDA_Union) neu ar ffrwd Twitter yr Ysgrifennydd Cyffredinol, Dave Penman [@FDAGenSec](https://twitter.com/FDAGenSec).

## **Swyddog Cenedlaethol - Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Allweddol**

Disgwylir mai cyfrifoldebau craidd y swyddog cenedlaethol fydd:

- Recriwtio, trefnu a chefnogi aelodau mewn canghennau ac adrannau ar draws nifer o adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth;
- Trafod cyflog a thelerau ac amodau cyflogaeth ar gyfer aelodau gydag adrannau, asiantaethau a chyrrff eraill lle mae'r FDA yn cael ei gydnabod;
- Cynghori, cefnogi a chynrychioli aelodau unigol gyda materion cyflogaeth megis cwynion ac achosion disgyblu, gyda'u cyflogwr ac mewn Tribiwnlysoedd lle bo'n briodol;
- Cynrychioli'r FDA gydag undebau eraill y Gwasanaeth Sifil, undebau llafur eraill, Gweinidogion a chyrrff allanol gan gynnwys TUC Cymru
- Cynrychioli'r FDA gyda'r cyfryngau mewn meysydd o gyfrifoldeb arbennig fel sy'n briodol
- Ysgrifennu cyfathrebiadau ar gyfer aelodau e.e. e-byst cangen, erthyglau ar gyfer cylchgrawn a gwefan yr FDA.
- Cefnogi cynrychiolwyr yn y gweithle a swyddogion cangen yn lleol a chynorthwyo i ddarparu hyfforddiant i gynrychiolwyr y gweithle

## **Bydd gan y Swyddog Cenedlaethol sgiliau a phrofiad sy'n cynnwys:**

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfraith cyflogaeth a chydraddoldeb
- Profiad mewn amgylchedd cysylltiadau diwydiannol a hanes o drafod a chynrychioli
- Y gallu i recriwtio a threfnu aelodau ar gyfer yr FDA
- Y gallu i ddatblygu strategaethau, cynlluniau ac atebion
- Profiad o weithio gyda swyddogion cangen undeb
- Profiad o eiriolaeth mewn sefyllfaoedd anodd
- Ymrwymiad amlwg i weithio i undeb llafur neu sefydliad dielw neu brofiad o wneud hynny
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar
- Byddai'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn ddefnyddiol ond nid yn hanfodol
- Sgiliau trafod a dylanwadu profedig
- Y gallu i weithio'n annibynnol ac o fewn tîm a'r gallu i reoli blaenoriaethau a dedleins cystadleuol